

CYNGOR CYMDEITHAS CYNWYD

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth 4 Hydref 2017 yn y Neuadd Bentref

PRESENNOL

Gwen Wynne, (Cadeirydd), Huw Evans (Is-Gadeirydd), Nesta Wivelle, Nan Jones, Mabon ap Gwynfor , Stephen Tudor ac Anna Thomas.

AELODAU O'R CYHOEDD

Catrin Phillips, Kathryn Roberts, Evan Williams

YMDDIHEURIADAU

Dim

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

Cytunodd Nesta i gwblhau gwaith gweinyddol parthed llythyrau Cyngor am y mis

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

CAIS YSGOL BRO DDYFRDWY

Diolchodd Mrs Phillips am y gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod, eglurodd bod yr ysgol yn rhan o Gynllun Siarter Iaith, a bod yr ysgol wedi derbyn y wobr Efydd ag Arian ynglŷn ag ymdrechion yr ysgol i hyrwyddo'r Gymraeg ond bellach mae'r ysgol yn awyddus i ymgeisio am y wobr Aur. Fel rhan o'r ymgais un o ofynion y siarter yw i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned ac nid yn unig yn yr ysgol. Cytunodd Anna, Gwen a Gwyneth i gynrychioli'r Cyngor mewn is-bwyllgor yn cynnwys aelodau o'r ysgol a Chyngor Llandrillo i geisio feddwl am prosiect ar y cyd i hyrwyddo'r iaith.

TIR Y GRAIG

Cadarnhaodd Mabon bod cais am wybodaeth wedi ei gyflwyno i'r Cyngor ond hyd yma nid oedd ymateb wedi'w dderbyn ond byddai'n rhannu unrhyw adborth mewn cyfarfod o'r Cyngor.

Derbyniwyd argymhellaid i holi Maureen Rostron gan ei bod wedi cwblhau gwaith yn ymwneud á'r llwybrau cyfagos yn y gorffennol.

Penderfynwyd nad oedd rhagor gall y Cyngor ei wneud, ac awgrymwyd bod Edward Davies yn trafod ymhellach gyda Mr a Mrs Ellis ac ei fod yn cysylltu a'r Gofrestra Tir .

GWRYCH BRYN BERLLAN

Y gwrych wedi'w dorri.

GODRE'R COED

Cadarnhaodd Mabon ei fod wedi cyflwyno cais am y gwaith ond nid oedd ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.

Y FYNWENT NEWYDD

Gosod fainc newydd

Penderfynwyd i gymeradwyo'r cais oddi wrth teulu y diweddar Meirionwen Roberts a chytunodd Stephen a Richard i drafod yr union lleoliad gyda'r teulu.

Torri Gwrychoedd

Cytunwyd i dalu'r anfoneb o £120.00 i Dylan Davies, Bod-Heulog. Cytunodd y cynghorwyr nad oedd angen i Delyth adael yr ystafell ond ni gymerodd rhan yn y drafodaeth.

Gyrru trwy'r pentref

Yn ystod cyfarfod o'r Siop Ni, codwyd dipyn o bryderon ynglŷn á'r ynysoedd ar y ffyrdd a phenderfynwyd mai'r ffordd ymlaen byddai i Mabon trafod y posibilrwydd o drefnu cyfarfod cyhoeddus gyda phresenoldeb Mark Musgrave o'r Cyngor Sir. Gadawyd y mater yn nwylo Mabon ond rhaghysbyswyd byddai angen i aelodau'r cyngor fod yn hyblyg o ran amser y cyfarfod.

Cadarnhaodd Huw bod 10 person wedi datgan diddordeb i gynorthwyo gyda monitro cyflymder a bod cyfarfod i'w gynnal ar 26 Hydref gyda'r heddlu i drafod ymhellach.

Gwasanaeth Sul y Cofio

Cytunodd Anna i ddarllen yn ystod y gwasanaeth a phenderfynwyd gofyn i Daniel Arbon o Trem y Foel I gyflwyno'r dorch yn ystod y gwasanaeth sydd i'w gynnal ddydd Sul 12 Tachwedd 2017.

Cyflwr y Cofgolofn

Cytunodd Gwen i'w dacluso erbyn y gwasanaeth ond o ran gwella ei chyflwr derbyniwyd awgrym i holi Cyngor Tref Corwen, gan eu bod wedi cwblhau gwaith tebyg yn ddiweddar.

Datblygiad Tai gyferbyn á Bryn Gwynt, Cynwyd

Derbyniwyd amlinelliad o gais arfaethedig i adeiladu stád o dai gan y Cyngor Sir. Eglurwyd bod cynlluniau wedi eu paratoi ar gyfer 14 annedd gyda 10% o'r datblygiad yn cael ei neilltuo ar gyfer tai fforddiadwy. Roedd y cynllun yn cynnwys cymysged o dai 2, 3 a 4 llofft.

Gofynnwyd I Philip Hughes holi'r Pensaer ynglŷn á llwybr cyhoeddus o flaen y datblygiad gan bod pryder eisoes yn bodoli ynglŷn á diogelwch cerdded y ffordd.

Diolchwyd iddo am ei bresenoldeb i'r cyfarfod ac am rannu'r bwriad mor fuan gyda'r gymuned.

Arwydd Ifor Williams

Cadarnhaodd Mabon ei fod wedi cyflwyno cais am y gwaith ond nid oedd ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.

Llyfrau'r Cyngor

Llion a Huw i drafod ynglŷn á throsglwyddo'r gwybodaeth yn fuan.

Gohebiaeth Cyngor Sir

Datganwyd pryder bod gohebiaeth yn parhau i fynd i'r cyn-glerc. Eglurwyd bod gohebiaeth yn cael ei agor ganddo ac yna yn cael ei basio i Llion Jones sydd ddim bellach yn gynghorydd. Cadarnhaodd Delyth ei bod wedi gofyn bod ceisiadau cynllunio i gyd yn cael eu harallgyfeirio at sylw Gwen wrth iddi ddychwelyd sylwadau yn y gorffennol drwy ebost.

Wal rhwng Glas y Dorlan a Bryn Berllan

Yn dilyn trafodaeth ac oherwydd diffyg gwybodaeth ynglŷn á pherchnogaeth y wal penderfynwyd ymateb drwy ofyn i'r preswylwyr cyfagos gwblhau ymholiadau i ddarganfod cyfrifoldeb pwy yw'r wal.

Archwiliad 2016/2017

Derbyniwyd llythyr oddi wrth LBDO parthed yr archwiliad ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/2017. O ganlyniad i'r blerwch roedd y sefyllfa yn un anodd a chymleth. Penderfynwyd gofyn wrth Margaret Jones baratoi'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31.03.17 gan nid oedd ganddi r'un perthynas yn aelod o'r Cyngor am y cyfnod yma.

Safle We / Gliniadur

Cadarnhaodd Delyth bod Iain Macvicar wedi cytuno i gynnwys cofnodion o fis Mehefin 2017 ymlaen ar y safle wé. Roedd Iain yn bryderus i gwblhau'r orchwyl gan iddo egluro ei fod yn y gorffennol wedi bod yn gyfrifol am gywiro a chyfieithu.

Coeden Nadolig

Cytunodd Stephen i ddarparu'r goeden erbyn 1af Rhagfyr 2017 gyda'r goleuadau yn cael eu troi ymlaen nos Fawrth 5 Rhagfyr cyn cyfarfod o'r Cyngor gyda'r syniadau isod: Disgyblion Bro Ddyfrdwy i gymryd rhant Richard Murphy i gysylltu'r goleuadau Mulled Wine yn cael ei ddarparu yn y Prince.

Arosfa Bws

Pasiwyd i anfon lythyr o ddiolch i Hilda Williams ac Enid Cole am roi o'u hamser yn wirfoddol i gadw'r ddau arosfa yn lán a thaclus.

Ceisiadau Cynllunio

24 Maes-Hyfryd – ail gyflwyniad

Cyflwynwyd ail gais gyda man newidiadau – cytunwyd yn unfrydol i'w gymeradwyo. Bu i Anna adael yr ystafell pan trafodwyd y cais ond gofynnwyd am ei phresenoldeb i egluro'r mán newidiadau.

Cais Cynllunio Pen y Dalar

Cais i adeiladu byngalo ar dir ger maes chwarae Trem y Foel.

Derbyniwyd pryder o leoliad y datblygiad gan ei fod yn rhy agos i'r cae chwarae, yn ogystal nid oedd preswylwyr oedd yn byw yn Nhrem y Foel wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn á'r cais ond bod preswylwyr oedd yn byw gerllaw yng Ngodre'r Coed wedi derbyn rhybudd o'r cais. Penderfynwyd i gysylltu á'r Adran Gynllunio i fynegu pryder nad oedd y Cyngor Sir wedi ymgynghori gyda phreswylwyr Trem y Foel.

Ni wnaethpwyd penderfyniad ynglŷn á'r cais a phasiwyd i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Adroddiad Diwrnod Ymgynghori

Oherwydd diffyg amser pasiwyd i gynnwys y mater ar agenda y cyfarfod nesaf.

Trefn Cyfarfodydd

Mynegodd Gwyneth ei bod yn bwysig bod y materion a drafodir yn unol á'r agenda gan bod llawer o faterion ychwanegol nad oedd ar yr agenda wedi eu trafod yn ystod y cyfarfod diwethaf. Er mwyn oresgyn hyn penderfynwyd bod angen ychwanegu cymal Unrhyw Fater Arall i'r agenda.

Rhent Llwybr Felin Uchaf

Derbyniwyd anfoneb blynyddol am yr uchod. Cytunodd Nan a Nest i drefnu cyfarfod efo Philip Hughes i drafod pryderon y Cyngor ynglŷn á chyflwr y y llwybr.

Llew Glas

Cadarnhaodd Mabon bod materion cynllunio bellach wedi eu pasio.

Gwaith Dŵr Cymru ar ffordd Llandrillo

Eglurwyd bod problem gyda dŵr yn gollwng wedi bodoli a bod Dŵr Cymru ar hyn o bryd yn gwneud arbrofion i'w galluogi i ymdrin á'r broblem.

Cyffordd Ty'n y Berth

Derbyniwyd pryder diogelwch ynglŷn á cheir sydd yn ymuno á'r ffordd fawr yn enwedig os yn dymuno teithio i gyfeiriad Corwen. Gadawyd y mater gyda Mabon.

Safle parcio ger Sunnyridge

Eglurodd Mabon bod cais wedi ei dderbyn i leoli arwydd "Dim Cerbydau Trwm" i osgoi bod lorïau yn parcio ar y tamaid tir

Adroddiad gan yr Heddlu

Darllenwyd adroddiad ar ran yr Heddlu gan Mabon yn amlinellu:

Bod cais am arian wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer cyflogi Dewin a danteithion ar gyfer aelodau o glwb ieuenctid Corwen ond bod gwahoddiad I ieuenctid cyfagos fynychu'r gweithgaredd sydd i'w gynnal 26/10/17.

Arian wedi ei dderbyn ar gyfer prosiect celfyddydau gaeaf sydd i'w gynnal yng Nghanolfan Ni Corwen o fis Tachwedd ymlaen. Mae'r prosiect yma ar gyfer genhedlaeth hyn ac mi fydd y cynllun yn cael ei hysbysebu yn fuan.

Diweddariad Troseddu Gwledig

Adroddiadau wedi eu derbyn bod giatiau, wedi eu dwyn yn ardal Cerrigydrudion a Rhuthun, a bod beiciau cwad, trelars fflat ac offer trydanol wedi cael eu targedu yng nghyffiniau Conwy a Sir Ddinbych. Annogir perchnogion gadw cofnod o rhifau cyfresol eu hoffer gan bydd cwmniau yswiriant á'r heddlu yn gofyn am yr wybodaeth mewn achos o ymchwilio i drosedd.

Cyflwr ffyrdd

Datganwyd pryder ynglŷn á chyflwr y ffordd ger Bryn Gwynt a Chelyngoed – Mabon i drafod gyda'r Cyngor Sir.

Yn dilyn y gwaith dŵr ger Glasfryn cadarnhawyd bod y ffordd angen ei glanhau mor fuan á phosib gan bod ei chyflwr presennol yn beryglus iawn. Mabon i drafod gyda'r Cyngor Sir.

Ffordd gefn i Glanrafon a Gwerclas

Gwaith ail wynebu wedi ei gwblhau ar y ffordd i Glanrafon a bydd gwaith yn cael ei gwblhau yn fuan ar ffordd Gwerclas.

Draen ger Ysgol Isaf

Derbyniwyd llythyr yn mynegu pryder ynglŷn á dwr sydd yn sefyll ar y ffordd fawr ger Ysgol Isaf. Gadawyd y mater yn nwylo Mabon.

Mayfield

Datganwyd pryder ynglŷn á cheir yn parcio ar y ffordd o flaen Mayfield a bod hyn yn beryglus iawn. Cadarnhaodd Mabon bod yr heddlu wedi bod yn ymweld á'r perchennog yn ddiweddar i drafod y mater.